# Polisi Canmoliaeth

## Cyflwyniad

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn gwerthfawrogi barn ein haelodau, ein cefnogwyr a'r gymuned ehangach.

Rydym ni wedi ymrwymo i safonau uchel o wasanaeth a chysylltiadau gwaith rhagorol gyda phobl sy'n delio â ni a byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi os ydych chi wedi cael profiad cadarnhaol gyda ni. Mae eich canmoliaeth yn ein helpu i ddathlu'r hyn rydym ni'n ei wneud yn dda ac yn cymell ein tîm i barhau i ddarparu gwasanaeth gwych.

Mae'r polisi hwn yn gadael i chi wybod sut i roi canmoliaeth, a sut rydym ni'n gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi.

| Rheoli Dogfen | |
|---|---|
| Fersiwn: | v4.0 |
| Awdur: | Simon Rose |
| Yn weithredol o: | Mai 2025 |
| Yn disodli: | v3.0 |
| I'w adolygu: | |

# Cynnwys

Cyflwyniad ........................................................................ 0
Polisïau cysylltiedig ........................................................................ 1
Dolenni allanol ........................................................................ 1
1. Gwerthfawrogi eich barn ........................................................................ 2
2. Sut i wneud canmoliaeth ........................................................................ 2
3. Beth fyddwn ni'n ei wneud pan fyddwn ni'n cael canmoliaeth ........................................................................ 3

## Polisïau cysylltiedig

## Dolenni allanol

## 1. Gwerthfawrogi eich barn

Byddwn wrth ein boddau os byddwch chi'n cymryd yr amser i anfon canmoliaeth atom.

Mae eich adborth yn bwysig i ni a byddwn yn rhannu eich canmoliaeth gyda'r Prif Swyddog Gweithredol, y rheolwr priodol a'r aelod o'r tîm.

## 2. Sut i wneud canmoliaeth

Os yw aelod o'n tîm wedi helpu mewn ffordd yr hoffech iddi gael ei chydnabod, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi fel y gallwn ni ddweud wrthynt. Gallwch wneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Trwy ein gwefan
  www.ldw.org.uk

- Trwy ebost
  enquiries@ldw.org.uk

- Ein ffonio ni
  029 2068 1160

- Ysgrifennu llythyr atom ni.
  Anabledd Dysgu Cymru
  41 Lambourne Crescent
  Parc Busnes Caerdydd
  Llanisien
  Caerdydd
  CF14 5GG

## 3. Beth fyddwn ni'n ei wneud pan fyddwn ni'n cael canmoliaeth

Pan fyddwn yn derbyn canmoliaeth, byddwn yn:

- Ei anfon at ein Prif Swyddog Gweithredol (CEO) a'r Rheolwr priodol. Byddwn yn gwneud hyn cyn gynted ag y byddwn ni'n cael canmoliaeth.
- Bydd y Prif Swyddog Gweithredol a/neu'r Rheolwr priodol wedyn yn ei anfon at yr aelod priodol o staff neu'r tîm sy'n cael eu crybwyll yn y ganmoliaeth.
- Byddwn yn cysylltu â chi o fewn 1 wythnos i'w dderbyn i ddiolch i chi am eich adborth. Bydd hyn yn cael ei wneud gan Reolwr y tîm mae'r ganmoliaeth yn cyfeirio ato, neu'r Prif Swyddog Gweithredol os yw'r ganmoliaeth yn fwy cyffredinol.

Bydd pob canmoliaeth wedyn yn cael ei rhannu gyda'r tîm staff a bydd yn cael ei chofnodi fel tystiolaeth o arfer da o fewn y sefydliad.

Efallai y byddwn ni hefyd yn rhannu canmoliaeth ar ein gwefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol neu fel rhan o gais am gyllid, yn ddienw, os ydych chi'n caniatáu i ni wneud hynny.